
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	ChiefInspector@estyn.gov.uk
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	07/05/2020
Pwnc / Subject:	Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – Cynllun Cyflawni 2020 i 2021

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Cyflwyniad

Mae Estyn yn cytuno'n gryf fod sicrhau bod pob plentyn ledled Cymru yn cael cymorth arbenigol o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol i ddatblygu eu medrau lleferydd, iaith a chyfathrebu (LlCh). Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cynllun cyflawni drafft yn cynnig rhesymeg bwrpasol ar gyfer yr angen i fireinio'r cymorth LlCh ledled Cymru, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch gwell yn y cymorth a ddarperir ar gyfer pob plentyn. Hefyd, mae'r cynllun yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer yr holl randdeiliaid, ac yn adeiladu ar arfer dda bresennol ar draws pob sector. Mae'r cynllun cyflawni drafft yn amlygu'n briodol y camau gweithredu a/neu'r ymrwymadau posibl sy'n ofynnol gan yr holl bartneriaid allweddol i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion LlCh yn cael cymorth priodol er mwyn cyflawni eu potensial.

Mae Estyn yn cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir i hyrwyddo negeseuon allweddol LlCh i rieni. Bydd hyn yn eu helpu i ddeall eu rôl mewn meithrin datblygiad iaith gynnar eu plentyn. Mae'n bwysig i rieni a gofawyr gael cymorth ac arweiniad ar sut i gefnogi datblygiad iaith eu plant o'r adeg y cânt eu geni. Mae Estyn o'r farn y dylid cryfhau'r negeseuon allweddol hyn ymhellach trwy waith amlasiantaethol, er enghraifft trwy gynnwys sgrinio LlCh yn ystod yr adolygiad 15 mis o iechyd teuluol gan ymwelydd iechyd. Byddai hyn yn helpu atgyfnerthu rôl bwysig rhieni a gofawyr mewn datblygu LlCh eu plant o'r adeg y cânt eu geni, ac yn helpu nodi problemau y gallai fod angen cymorth arbenigol ar eu cyfer.

Rydym yn cefnogi dull cenedlaethol o asesu anghenion LICh plant ledled Cymru gan y byddai hyn yn helpu cyflawni mwy o gysondeb ac yn cryfhau nodi anghenion cynnar. Ochr yn ochr â nodi cynnar, mae'n hanfodol fod yr holl ymarferwyr yn cael cymorth a hyfforddiant priodol i gyflawni'r ymyriadau er mwyn gwella deilliannau LICh ar gyfer plant. Mae Estyn yn cytuno bod angen trefnu bod unrhyw offeryn sgrinio LICh yn y dyfodol ar gael yn ddwyieithog i ddiwallu anghenion pob plentyn. Hefyd, mae'n bwysig ystyried natur unigryw pob iaith, gan gynnwys sut mae plant yn datblygu iaith mewn cartrefi a lleoliadau dwyieithog neu amlieithog.

Mae Estyn yn cytuno bod uwchsgilio'r gweithlu i allu nodi anghenion LICh plant yn gynnar a rhoi cymorth priodol ar waith yn flaenoriaeth. Mae angen i ymarferwyr ddatblygu dealltwriaeth dda o ddatblygiad LICh, ac yn benodol, sut i amrywio'r cymorth sydd ei angen ar wahanol gyfnodau yn natblygiad plentyn. Hefyd, mae'r cynnig yn nodi'n gywir y medrau penodol sy'n ofynnol gan ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n defnyddio technegau trochi Cymraeg. Mae'n bwysig fod hyfforddiant ar gyfer y sector hwn yn parhau i gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, i sicrhau bod ymarferwyr wedi eu harfogi i gyflawni'r cynnydd arfaethedig mewn darpariaeth Gymraeg.

Mae'r cynnig yn cydnabod pwysigrwydd gweddu'r cynllun cyflawni LICh i amcanion strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' Llywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'n cydnabod bod angen gwella medrau'r gweithlu presennol sy'n gweithio yn y sector cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â hysbysu rhieni am sut i gefnogi medrau Cymraeg eu plant. Fodd bynnag, mae'n bwysig y dylai ymarferwyr a rhieni allu elwa ar gymorth a chyngor gan arbenigwyr, fel therapyddion lleferydd ac iaith, trwy'r iaith o'u dewis nhw. Mae hyn yn allweddol i sicrhau bod cydraddoldeb yn y ddarpariaeth ar gyfer cymorth LICh ledled Cymru. Mae'n hanfodol sicrhau bod staff hyfforddedig ar gael i gefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn darparu cymorth ac ymyrraeth dargedig ar gyfer plant sy'n mynychu'r lleoliadau hyn.

Teitl: Siarad gyda fi

Lleferydd, iaith a Chyfathrebu: Cynllun Cyflawni 2020-2021

Ymgynghoriad:

Cwestiwn 1(a): Ydych chi'n credu y bydd y camau gweithredu a awgrymir gennym i hyrwyddo negeseuon allweddol ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhlith rhieni yn eu helpu i ddeall eu rôl wrth feithrin datblygiad iaith cynnar eu plentyn?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
Ydw		

Sylwadau ychwanegol:

Mae Estyn yn cytuno'n gryf fod sicrhau bod pob plentyn ledled Cymru yn cael cymorth arbenigol o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol i ddatblygu eu medrau LICh. Hefyd, mae'n bwysig fod rhieni a gofalwyr yn gallu elwa ar gymorth ac arweiniad i'w galluogi i gefnogi datblygiad iaith eu plant o'r adeg y cânt eu geni. Felly, mae'n hanfodol fod cyngor ac arweiniad LICh yn eglur yn yr holl ddeunyddiau cymorth rhianta, fel ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo' Llywodraeth Cymru, a chyfres arfaethedig Iechyd Cyhoeddus Cymru o adnoddau gwybodaeth i rieni. Rydym yn argymhell y dylid cryfhau'r negeseuon allweddol hyn ymhellach trwy Raglen Plant Iach Cymru (HCWP), gan gynnwys blaenoriaethu LICh yn yr adolygiad 15 mis o iechyd teuluol gan ymwelydd

iechyd. Byddai hyn yn helpu atgyfnerthu rôl bwysig rhieni a gofalwyr mewn datblygu LIICh eu plant o'r adeg y cânt eu geni, ac yn helpu nodi problemau y gallai fod angen cymorth arbenigol ar eu cyfer. Mae cyflwyno ymgyrch Amser i Siarad, Chwarae a Gwrando yn barhaus hefyd yn bwysig i'w hannog i gymryd amser i siarad, chwarae a gwrando ar eu plant i helpu eu medrau datblygu iaith a chyfathrebu yn ystod eu haddysg gynnar. Fodd bynnag, mae'n bwysig i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir gael y cymorth a'r arweiniad angenrheidiol i ymgysylltu'n llawn â rhieni a gofalwyr ar ddatblygu LIICh. Gellir gweld enghraifft dda o arfer effeithiol wrth sicrhau ymglymiad cryf â rhieni mewn lleoliadau nas cynhelir [yma](#). Mae gan Addysg Gynnar Ysgol Fabanod Parc Borras bartneriaethau cryf â rhieni a gofalwyr, sy'n helpu plant i ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad. Mae rhieni a gofalwyr yn hynod werthfawrogol o'r ymweliadau cartref a gynhelir cyn i'w plentyn ddechrau yn y lleoliad, sy'n galluogi iddynt gymryd rhan mewn sgysiau ystyrlon am eu plentyn.

Mae 'Cymraeg i blant' Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n dymuno gwybod mwy am bwysigrwydd datblygu Medrau Cymraeg eu plant. Fodd bynnag, mae angen i hyn gyd-fynd yn llawn â strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' Llywodraeth Cymru, ac yn benodol, ei nod, sef '*rhoi'r cychwyn gorau yn yr iaith i'n plant drwy gynyddu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref*'. Felly, mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol i sicrhau bod yr holl rieni a gofalwyr ledled Cymru yn gallu cael arweiniad a chymorth i gefnogi medrau Cymraeg eu plant.

Cwestiwn 1(b): Beth yn rhagor y gallem ei wneud er mwyn galluogi rhieni i ymgysylltu â'r negeseuon allweddol ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu?

Testun rhydd:

Mae ymchwil yn dangos y gall darparu ymyriadau yn gyffredinol i'r holl deuluoedd ehangu yn hytrach na lleihau anghydraddoldeb (er enghraifft, Mol a Bus, 2011). Felly, dylid targedu ymyriadau a chymorth ar gyfer rhieni yn briodol, a dylent fod yn gymesur i'r rhai sydd ei angen fwyaf, yn hytrach nag yn gyffredinol.

Mol, S. E. a Bus, A. G. (2011) 'To Read or Not to Read: A Meta-Analysis of Print Exposure From Infancy to Early Adulthood', *Psychological Bulletin*, 137 (2), tt. 267–96.

Cwestiwn 2(a): Ydych chi'n credu y gallai ymgyrch gyhoeddusrwydd sy'n targedu pob rhiant arwain at fwy o alw am wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu oherwydd cynnydd mewn ymwybyddiaeth (megis therapi lleferydd ac iaith)?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
Ydw		

Cwestiwn 2(b): Os na fydd yr ymgyrch gyhoeddusrwydd yn cynyddu'r galw am wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu, beth y gellid ei wneud i reoli hyn?

Testun rhydd:

Mae Estyn yn credu y gellid ystyried dull fel yr un a amlinellir isod i helpu bodloni'r cynnydd yn y galw am LICh.

Yn dilyn ein harolygiad o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol Cyngor Sir y Fflint yn ddiweddar, adroddodd arolygwyr ar arfer effeithiol yr awdurdod lleol o ran cefnogi datblygiad iaith mewn lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir. Mae awdurdod lleol Sir y Fflint wedi datblygu dull integredig o Ddatblygu Iaith, sy'n cynnig gwasanaethau a chymorth ar lefel gyffredinol, dargedig ac arbenigol. Mae cydweithio agos rhwng Gwasanaeth Iaith yr awdurdod lleol (CLASS), y Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) a Therapyddion Lleferydd ac Iaith (ThLIAI) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi sicrhau deilliannau cadarnhaol mewn lleoliadau prif ffrwd ac arbenigol.

Gellir cael mwy o wybodaeth am yr astudiaeth achos arfer effeithiol ar wefan Estyn [yma](#).

Cwestiwn 3(a): Ydych chi'n credu y bydd y dull a awgrymir gennym o wella'r ffordd y caiff sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu hasesu yn y blynyddoedd cynnar yn helpu i hwyluso canlyniadau lleferydd, iaith a chyfathrebu gwell i blant a phobl ifanc?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
Yes		

Sylwadau ychwanegol:

Rydym yn cefnogi dull cenedlaethol o asesu anghenion LICh plant ledled Cymru gan y byddai hyn yn helpu sicrhau mwy o gysondeb a chymorth i nodi anghenion plant yn gynnar. Bydd hyn yn cynnwys ymyrraeth dargedig addas i wella medrau lleferydd ac iaith plant, sy'n ategu eu gallu i ddysgu darllen ac ysgrifennu ac elwa ar y cwricwlwm. Ochr yn ochr â nodi'n gynnar, mae'n hanfodol fod pob ymarferwr yn cael cymorth a hyfforddiant priodol i gyflwyno'r ymyriadau er mwyn gwella deilliannau LICh ar gyfer plant.

Dylai adolygiad o'r rhaglen sgrinio bresennol a ddefnyddir yn y rhaglen Dechrau'n Deg ac mewn lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir ar hyn o bryd gynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys Estyn. Mae Estyn yn cytuno bod angen trefnu bod unrhyw offeryn sgrinio LICh yn y dyfodol ar gael yn ddwyieithog i ddiwallu anghenion pob plentyn.

Mae'r cynllun cyflawni drafft yn nodi y bydd asesiad o lefel anghenion hyfforddiant Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o ran gwybodaeth arolygwyr am ddatblygiad iaith gynnar plant yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, gan fod Estyn ac AGC bellach yn cynnal arolygiadau ar y cyd o leoliadau nas cynhelir sy'n cynnig hawl i addysg gynnar, byddem yn croesawu cyfranogi yn y datblygiad hwn. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb yn ein dull o arolygu medrau LICh plant yn y lleoliadau hyn.

Cwestiwn 3(b): Oes unrhyw beth ar goll o'r dull a awgrymir gennym o wella'r ffordd y caiff sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu hasesu yn y blynyddoedd cynnar y mae angen i ni ei gynnwys?

Testun rhydd:

Mae ymchwil i ddatblygiad iaith gynnar yn pwysleisio, er bod tystiolaeth fod y gyfradd y mae plant yn datblygu iaith yn sensitif i faint o fewnbwn a gânt gan yr oedolion o'u cwmpas, bod ansawdd y mewnbwn a gaiff plant yn debygol o fod yn bwysicach na'r maint. Felly, byddem yn awgrymu bod hyn yn ystyriaeth bwysig ar gyfer amcanion 1 a 3 yn y cynllun cyflawni.

Yn ychwanegol, mae'r cynllun cyflawni arfaethedig, 'Gweithgaredd 2.3' ar dud.11 (Llywodraeth Cymru, 2020) yn awgrymu y bydd offeryn sgrinio cymeradwy 'unigol' yn cael ei ddefnyddio i asesu galluoedd plant yn Saesneg ac yn Gymraeg. Efallai na fydd hyn yn rhoi ystyriaeth ddigon da i natur unigryw pob iaith, na sut mae iaith yn datblygu ar gyfer plant mewn cartrefi a lleoliadau dwyieithog ac amlieithog.

Cwestiwn 3(c): Ydy adnodd sgrinio WellComm mor effeithiol ag y gallai fod yn eich barn chi?

Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod
		Ddim yn gwybod

Os 'Nad ydy', sut y gellid ei wella?

Sylwadau ychwanegol:

Mae ein tystiolaeth arolygu yn dangos bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o offer asesu i helpu lleoliadau ac ysgolion i asesu medrau iaith gynnar plant. Mae ein harolygwyr yn adrodd ar ba mor dda y mae ymarferwyr yn defnyddio asesiadau o'r fath i helpu nodi anghenion plant a chynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae ymchwil gan Law et al (2017, tud.4) yn nodi'r heriau wrth fesur medrau iaith a chyfathrebu datblygol plentyn, gan fod y cerrig milltir rydym yn disgwyl i blant eu cyrraedd yn rhychwantu amrywiaeth o barthau, fel 'clebran', 'ystum', 'geirfa' a 'chymhlethdod brawddeg'. Mae llawer o asesiadau (er enghraifft, Wellcomm) yn darparu synnwyr cyffredinol o alluoedd plentyn i fynegi ei hun mewn sgorau cyffredinol, yn hytrach nag is-sgorau o fewn pob parth. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd nodi'n fanwl pa agweddau ar iaith y gallai plentyn fod yn cael trafferth â nhw. Dylid ystyried hyn wrth nodi offeryn asesu.

Cymhlethdod ychwanegol yw'r angen i gyfrif am blant sy'n perfformio'n wael ar asesiadau o alluoedd iaith gan eu bod yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith Ychwanegol (C/SIY). Rydym yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i blant sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol wrth fwrw ymlaen â'r cynllun cyflawni hwn. O gael eu hamlygu'n ddigonol i'r Saesneg, bydd mwyafrif helaeth y plant sy'n siarad SIY yn dal i fyny â'u cyfoedion (McKean et al, 2015). Fodd bynnag, yn y blynyddoedd cyn-ysgol, bydd llawer o blant yn perfformio'n wael ar asesiadau o allu yn y Saesneg.

Yn ychwanegol, mae Deilliant 2 ar dud.11 a'r 'cam gweithredu allweddol' dilynol i sicrhau bod asesiadau 'yn cael eu cynnal ar yr adeg gywir' yn rhagdybio bod yna 'adeg gywir' i asesu plant ar gyfer anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu posibl. Mae Law et al (2017, tud.18) yn disgrifio'r modd y gall anawsterau rhai plant 'ddiflannu' wrth iddynt dyfu,

ond gall rhai ohonynt 'ddatblygu' anawsterau wrth iddynt dyfu; mae'n ymddangos eu bod yn cychwyn yn dda, ond wedyn yn disgyn y tu ôl i'w cyfoedion yn ddiweddarach yn eu datblygiad. Roedd y grŵp hwn 'a ddaeth i'r amlwg yn hwyr' yn amlwg mewn ymchwil am blant o wahanol oedrannau (er enghraifft, rhwng 18 a 30 mis yn Ghassabian et al, 2014 a Henrichs et al, 2011; rhwng 3 a 5 oed yn Law et al, 2012 a Zambrana et al, 2014; a rhwng 4 a 6 oed yn Zubrick et al, 2015).

Byddai'r ystyriaethau uchod yn awgrymu na ddylai nodi plant sydd angen cymorth ychwanegol yn gywir yn gynnar fod yn ddigwyddiad unigol. Yn hytrach, mae angen monitro cynnydd plentyn dros gyfnod. Mae Bornstein et al, 2016 yn argymhell defnyddio offer asesu lluosog. Hefyd, un o fanteision y dull integredig hwn yw ei fod yn ffurfio 'rhwyd diogelwch' er mwyn gallu dal plant nad yw'n ymddangos bod ganddynt anawsterau ar adegau asesu cynharach. Y darlun cymhleth hwn o lwybrau datblygiad iaith plant unigol yw un o'r heriau allweddol ar gyfer amcan 2 a chynllunio sgrinio ac ymyriadau dilynol.

Ghassabian, A., Rescorla, L., Henrichs, J., Jaddoe, V. W., Verhulst, F. C., a Tiemeier, H. (2014) 'Early lexical development and risk of verbal and nonverbal cognitive delay at school age', *Acta Paediatrica, International Journal of Paediatrics*, 103 (1), tt. 70–80.

Henrichs, J., Rescorla, L., Schenk, J. J., Schmidt, H. G., Jaddoe, V. W. V., Hofman, A., Raat, H., Verhulst, F. a Tiemeier, H. (2011) 'Examining continuity of early expressive vocabulary development: The Generation R study', *Journal of Speech, Language, and Hearing Research*, 54, tt. 854–69.

Law, J. Charlton, J., Dockrell, J., Gascoigne, M., McKean, C. Theakston, A. (2017) *Early Language Development: Needs, provision, and intervention for preschool children from socio-economically disadvantaged backgrounds, A Report for the Education Endowment Foundation*. Newcastle: University of Newcastle.

McKean, C., Mensah, F. K., Eadie, P., Bavin, E. L., Bretherton, L., Cini, E. a Reilly, S. (2015) 'Levers for language growth: Characteristics and predictors of language trajectories between 4 and 7 years', *PLoS ONE*, 10 (8).

Zambrana, I. M., Pons, F., Eadie, P. ac Ystrom, E. (2014) 'Trajectories of language delay from age 3 to 5: Persistence, recovery and late onset', *International Journal of Language and Communication Disorders*, 49, tt. 304–16 and between 4 and 6 years in Zubrick et al, 2015.

Zubrick, S. R., Taylor, C. L. a Christensen, D. (2015) 'Patterns and predictors of language and literacy abilities 4–10 years in the longitudinal study of Australian children', *PLoS ONE*, 10 (9).

Cwestiwn 3(d): Ar wahân i adnodd sgrinio WellComm, pa adnoddau eraill y byddech chi'n eu hargymhell?

Testun rhydd:

Gweler uchod.

Cwestiwn 4(a): Ydych chi'n credu y bydd ein camau gweithredu i uwchsgilio'r gweithlu er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn golygu y caiff problemau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu nodi'n well?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
Ydw		

Sylwadau ychwanegol:

Mae Estyn yn cytuno bod uwchsgilio'r gweithlu i nodi anghenion LICh plant yn gynnar a rhoi cymorth priodol ar waith yn flaenoriaeth. Mae'r Cynllun Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio i feithrin capasiti a gallu ar draws y sector, gan gynnwys pwysigrwydd cael yr holl ymarferwyr i ddeall LICh yn sector y blynyddoedd cynnar. Yn ddiweddar, bu Estyn yn gweithio ochr yn ochr â Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella lechyd Cymru a chyrrff proffesiynol eraill yn y sector nas cynhelir a'r sector gofal i ddatblygu cymhwyster arfer broffesiynol lefel 4 fel rhan o'r gyfres o gymwysterau newydd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD). Dylai hyn arfogi darpar arweinwyr â'r medrau a'r wybodaeth angenrheidiol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion LICh.

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig i rannu arfer orau ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith ac ymarferwyr datblygiad iaith gynnar. Gellid defnyddio gwefan Estyn hefyd i gyfeirio ymarferwyr at arfer effeithiol wrth ddatblygu medrau LICh plant yn y sector nas cynhelir, ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae pedair astudiaeth achos ddefnyddiol yn cynnwys:

- [Cefnogi therapi lleferydd ac iaith plant](#)
- [Cefnogi disgyblion ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu i wella llefaredd a lles](#)
- [Datblygu medrau llefaredd disgyblion yn gyflym](#)
- [Datblygu rhaglen cymorth iaith arbenigol ar gyfer awdurdod lleol](#)

Mae'r cynnig yn cydnabod bod angen medrau penodol ar gyfer ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n defnyddio technegau trochi yn y Gymraeg. Mae Estyn yn cytuno ei bod yn bwysig adeiladu ar yr arfer bresennol i gyflwyno'r hyfforddiant a gefnogir eisoes gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ymarferwyr wedi'u harfogi i gefnogi'r cynnydd arfaethedig mewn darpariaeth Gymraeg. Er enghraifft, prosiect Camau sy'n darparu hyfforddiant teilwredig i helpu ymarferwyr yn y sector gofal plant, y blynyddoedd cynnar a gwaith chwarae i ddysgu Cymraeg a gwella eu medrau iaith.

Cwestiwn 4(b): Ydych chi'n credu y bydd ein camau gweithredu i uwchsgilio'r gweithlu er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn golygu y caiff ymyriadau mwy prydlon eu rhoi ar waith?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
Ydw		

Sylwadau ychwanegol:

Yn ddiweddar, mae Estyn wedi cyhoeddi dau adroddiad thematig sy'n cyd-fynd yn agos â chefnogi plant ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd a chefnogi'r rhai sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae ['Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd – Adroddiad arfer dda'](#) yn nodi pwysigrwydd nodi anghenion plant yn gynnar, ynghyd â gweithio'n gryf mewn partneriaeth rhwng lleoliadau ac ysgolion fel ysgogiadau allweddol wrth sicrhau bod ymyriadau priodol ar waith. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â nhw yn ystod yr astudiaeth, mae'r trefniadau hyn yn helpu sicrhau bod pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion, diddordebau a galluoedd disgyblion cyn iddynt ymuno â'r ysgol. Yn ychwanegol, mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau i sicrhau eu bod yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar. Felly, mae'n bwysig fod staff mewn lleoliadau nas cynhelir yn cael eu hyfforddi'n llawn mewn nodi anghenion plant, gan gynnwys LIICh, yn gynnar, a'u bod yn gallu ymgysylltu â rhanddeiliaid i roi cymorth priodol ar waith cyn gynted ag y bo modd. O ganlyniad i weithlu sy'n meddu ar fedrau gwell, dylid nodi problemau LIICh yn gynnar mewn lleoliadau, a rhoi ymyriadau amserol ar waith.

Er bod yr adroddiad wedi'i anelu at ysgolion yn bennaf, mae ['Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod'](#) yn amlygu pwysigrwydd adnabod effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar les plant a'u datblygiad cyffredinol. Mae'r cam gweithredu arfaethedig i ddatblygu pecyn hyfforddiant ar-lein ar gyfer y gweithlu LIICh i'w helpu i fod yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a darparu cyngor ar weithio gyda phobl y mae eu bywydau wedi cael eu heffeithio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn gam cadarnhaol. Gallai hyn roi dealltwriaeth well i ymarferwyr o'r modd y gallai profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effaith negyddol ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, yn ogystal â darparu cymorth targedig pan fydd angen.

Cwestiwn 4(c): Oes unrhyw beth ar goll o'n cynlluniau i uwchsgilio'r gweithlu er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu?

Testun rhydd:

Mae astudiaethau wedi dangos bod llawer o amrywioldeb unigol mewn iaith wrth iddi ddatblygu, a bod rhai plant yn dechrau'n dda ac yn disgyn ar ei hôl hi, a bod plant eraill yn cychwyn yn araf iawn ond yn dal i fyny (Law et al, 2007, tud.15). Mae angen i ymarferwyr ddeall os yw lefel yr angen yn amrywio ar wahanol oedrannau, a sut, ac mewn perthynas â ffactorau y credir eu bod yn rhoi plant 'mewn perygl' o ddatblygiad iaith gwael, fel anfantais gymdeithasol, pwysau geni isel neu nam ar y clyw (Amcan 3 y cynllun cyflawni arfaethedig).

Law, J.Charlton, J., Dockrell, J., Gascoigne, M., McKean, C. Theakston, A. (2017) *Early Language Development: Needs, provision, and intervention for preschool children from socio-economically*

disadvantaged backgrounds, A Report for the Education Endowment Foundation. Newcastle: University of Newcastle

Cwestiwn 5(a): Ydych chi'n credu y byddwn yn gallu achosi newidiadau ac ysgogi gwelliannau ym maes lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar drwy lunio polisau gwell? Os 'Nac ydw', esboniwch pam.

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
Ydw		

Testun rhydd:

Cwestiwn 5(b): Ar wahân i'r rhai a nodwyd, oes unrhyw feysydd polisi eraill y dylem eu cynnwys yn ein cynllun?

Testun rhydd:

Gallai plant sy'n profi anawsterau iaith mewn cysylltiad â mathau eraill o fregusrwydd wynebu risg arbennig o ddeilliannau gwael. Mewn samplau clinigol, mae plant sy'n cael eu cyflwyno i wasanaethau arbenigol ag anawsterau iechyd economaidd-gymdeithasol ac iechyd meddwl, yn wynebu risg uchel iawn o gael anawsterau iaith (Bretherton et al, 2014; Lindsay a Dockrell, 2012). Felly, mae'n bwysig ystyried effeithiolrwydd dulliau sy'n targedu bregusrwydd plant mewn iechyd economaidd-gymdeithasol ac iechyd meddwl, ac mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ogystal.

Bretherton, L., Prior, M., Bavin, E., Cini, E., Eadie, P. a Reilly, S. (2014) 'Developing relationships between language and behaviour in preschool children from the Early Language in Victoria Study: implications for intervention', *Emotional and Behavioural Difficulties*, 19 (1), tt. 7–27.

Lindsay, G. a Dockrell, J. E. (2012) 'Longitudinal patterns of behavioral, emotional, and social difficulties and self-concepts in adolescents with a history of specific language impairment', *Language, Speech, and Hearing Services in Schools*, 43 (4), tt. 445–60.

Cwestiwn 6(a): Ydy'r wybodaeth yn y trosolwg yn glir ac, os nad yw'n glir, sut y gellid ei gwella?

Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod
Ydy		

Testun rhydd:

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cynllun cyflawni drafft yn darparu crynodeb clir a chryno o'r pedwar amcan allweddol. Mae'n darparu rhesymeg bwrpasol ar gyfer yr angen i fireinio'r cymorth LILCh ledled Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n deg ac yn darparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer pob plentyn.

Cwestiwn 6(b): Ydy'r wybodaeth yn y trosolwg yn ddefnyddiol ac, os nad yw'n ddefnyddiol, sut y gellid ei gwella?

Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod
Ydy		

Testun rhydd:

Mae'r cynllun cyflawni drafft yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer yr holl randdeiliaid, ac mae'n dangos sut mae'n adeiladu ar arfer dda bresennol ar draws pob sector. Mae'n cydnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd ac yn darparu dull strategol i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae'r cynllun cyflawni drafft yn amlygu'n briodol y camau gweithredu a/neu'r ymrwymadau posibl sy'n ofynnol gan yr holl bartneriaid allweddol i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion LIICh yn cael cymorth priodol er mwyn cyflawni eu potensial.

Cwestiwn 7: Ar wahân i'r pedwar amcan yn y cynllun cyflawni, oes unrhyw rai eraill y dylem eu cynnwys? Rhwngch fanylion.

Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod
	Nac oes	

Testun rhydd:

Cwestiwn 8: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynllun cyflawni i hybu a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Testun rhydd:

Mae'r cynnig yn cydnabod pwysigrwydd gweddu'r cynllun cyflawni LIICh i amcanion strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' Llywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'n cydnabod bod angen uwchsgilio'r gweithlu presennol sy'n gweithio yn y sector cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â hysbysu rhieni am sut i gefnogi medrau Cymraeg eu plant. Mae'r cynnig yn nodi hefyd fod angen creu offeryn asesu dwyieithog sydd ar gael ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod yr holl adnoddau ategol yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu ymarferwyr i gyflwyno strategaethau ymyrraeth sy'n briodol. Yn ychwanegol, dylai ymarferwyr a rhieni allu elwa ar gymorth a chynghor gan arbenigwyr, fel therapyddion lleferydd ac iaith, trwy'r iaith o'u dewis nhw. Mae hyn yn allweddol i sicrhau bod cydraddoldeb yn y ddarpariaeth ar gyfer cymorth LIICh ledled Cymru.

Cwestiwn 9: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r cynllun cyflawni arfaethedig i hybu a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Testun rhydd:

Mae'r cynllun cyflawni drafft yn nodi'n briodol yr angen i rannu negeseuon ymhellach gyda rhieni a darpar rieni ynghylch datblygu'r Gymraeg. Mae Estyn yn cytuno bod hyn yn gyfle da i hysbysu teuluoedd am eu rôl mewn datblygu medrau Cymraeg eu plant, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod yr asesiadau a'r cymorth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn sicrhau tegwch i bob plentyn ledled Cymru. Yn ychwanegol, mae'n bwysig cefnogi ein gweithlu trwy hyfforddiant teilwredig a rhannu arfer dda os ydym am gyflwyno darpariaeth LILCh o ansawdd uchel yn Gymraeg a Saesneg ar draws yr holl leoliadau ac ysgolion. Mae'n hanfodol sicrhau bod staff hyfforddedig ar gael i gefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn darparu cymorth ac ymyrraeth dargedig ar gyfer plant sy'n mynychu'r lleoliadau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys personél awdurdod lleol fel athrawon cymorth ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, yn ogystal ag ymgynghorwyr her sy'n gallu helpu ysgolion. Yn ychwanegol, mae'n bwysig iawn sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu troi at weithwyr proffesiynol allweddol fel therapyddion lleferydd ac iaith a seicolegwyr addysg, trwy'r iaith o'u dewis nhw.

Cwestiwn 10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Testun rhydd: